# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pen y Bont Court**

**Cartref Nyrsio Pen y Bont Court**
**Ewenny Road, Ewenni**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 5AW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Pen y Bont Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pen-y-Bont Court Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9.3.2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a ddarperir yng nghartref Pen y Bont Court. Maent yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a chartrefol sy'n gynnes, yn lân ac yn addas i ddiwallu eu hanghenion. Caiff y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth eu trin â thosturi, urddas a pharch gan dîm o staff nyrsio a gofal cyson ac ymroddedig sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae gwybodaeth fanwl ar gael i'r staff er mwyn iddynt ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae cynlluniau personol ar waith i'r bobl, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned. Mae digon o staff ar gael i roi cymorth digonol i'r bobl. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn wybodus, yn barchus ac yn ofalgar. Caiff pob aelod o'r staff ei recriwtio'n ddiogel a'i gefnogi a chaiff yr holl staff hyfforddiant i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn cefnogi'r bobl yn briodol. Mae Unigolyn Cyfrifol wedi'i benodi ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae darparwr y gwasanaeth wedi datblygu systemau i'w alluogi i gasglu barn y bobl ac mae wedi rhoi gwiriadau a phrosesau ar waith i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â'r bobl, perthnasau a'r staff er mwyn cael adborth ganddynt a chael gwybod am eu profiadau o'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng nghartref Pen y Bont Court. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn dosturiol, yn dangos parch ac yn mwynhau gweithio yn y cartref. Mae gan y gwasanaeth systemau archwilio i sicrhau bod y gofal a'r cymorth o safon dda. Mae gan y bobl gynlluniau personol unigol a chyfredol. Mae'r bobl yn fodlon ar y prydau bwyd sy'n cael eu cynnig yn y cartref. Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a cheir tystiolaeth bod y gweithwyr gofal yn gallu diwallu anghenion corfforol ac emosiynol y bobl.

Mae amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ar gael i'r bobl. Gwelsom fod atgyfeiriadau amserol yn cael eu gwneud a chaiff pob gohebiaeth ac apwyntiadau meddygol eu cofnodi yng nghynlluniau personol y bobl. Caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi yn unol â chanllawiau arferion gorau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Gwnaethom edrych ar nifer o gofnodion rhoi meddyginiaeth a wnaeth gadarnhau ein canfyddiadau. Cynhelir archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff anghysondebau eu nodi ac yr ymatebir iddynt.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud. Gwelsom fod amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael sy'n ystyrlon i'r bobl. Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom weithgareddau yn cael eu cynnal wedi'u hwyluso gan weithwyr gweithgareddau a gweithwyr gofal. Yn ôl pob golwg, mae'r bobl yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghofnodion gofal y bobl.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Mae gan y cartref bolisi diogelu priodol ar waith ac mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda gan dîm o staff gofal sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan staff ymroddedig sy'n gwybod sut i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn, ac maent yn hyderus y bydd y rheolwr yn ymdrin ag unrhyw gwynion.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol a dodrefn addas i annog eu hannibyniaeth, ac yn eu galluogi i gael amser preifat. Caiff gwiriadau amgylcheddol o'r adeilad eu cwblhau a'u dogfennu'n rheolaidd. Mae sawl ardal gymunedol sy'n addas ar gyfer cynnal gweithgareddau a threulio amser yng nghwmni ymwelwyr. Mae'r cartref wedi'i drefnu'n dda; mae'r staff a'r tîm rheoli yn lleihau peryglon cymaint ag y bo'n ymarferol bosibl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda. Mae'r asesiadau cyn derbyn yn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl cyn iddynt symud i mewn. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio gofal yn sicrhau bod y bobl wrth wraidd y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Caiff cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd â'r bobl neu eu cynrychiolydd. Maent yn nodi canlyniadau'r bobl ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal mewn perthynas â darparu gofal. Mae asesiadau risg a chynlluniau rheoli cadarn yn nodi gwendidau'r bobl ac yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal ar ymyriadau a fydd yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth wedi cael achrediad sicrwydd ansawdd Cymdeithas Clefyd Huntington. Mae'r cofnodion dyddiol yn gyfredol ac yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd cyffredinol y bobl pan fo angen. Caiff proses drosglwyddo drylwyr ei chynnal rhwng shifftiau. Mae bwydlen dreigl pedair wythnos ar waith, sy'n annog y bobl i fwyta deiet amrywiol ac iach.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae gwybodaeth dda ar gael i'r staff er mwyn iddynt ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cyd-dynnu'n dda â'r staff gan ddweud "*It's a nice place to be*" a "*They look after me well*". Dywedodd perthynas "*The care is brilliant, can't fault it*" a "*They know her well and understand her needs*". Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cynnig dewisiadau i wneud penderfyniadau bob dydd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn siarad yn rheolaidd â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u teuluoedd am yr hyn sy'n bwysig a'r ffordd orau o'u cefnogi.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael sy'n ystyrlon i'r bobl. Ceir tystiolaeth ffotograffig a dogfennaeth ysgrifenedig, a gwelwyd y bobl yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Mae gweithgareddau yn cynnwys celf a chrefft, karaoke, cwisiau a diwrnodau â thema. Mae cofnodion yn dangos bod cyfleoedd i'r bobl ddefnyddio cyfleusterau cymunedol lleol. Dywedodd perthynas, "*More happens here in a week than in some homes for a year".*

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae polisïau manwl ar waith i arwain y staff ym mhob maes, gan gynnwys diogelu a chwythu'r chwiban. Caiff digwyddiadau, damweiniau a phryderon diogelu posibl eu harchwilio a'u hatgyfeirio at y sefydliadau allanol perthnasol. Gwelsom fod Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau am eu llety, eu gofal a'u cymorth. Pan ofynnwyd i ymwelwr a oedd ei berthynas yn ddiogel, dywedodd wrthym "*Yes, 100%*".

## Yr Amgylchedd

Mae Pen y Bont Court yn lân ac yn gartrefol, mae digon o le a chaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau en-suite a gwelsom eu bod wedi'u personoli'n unol â chwaethau unigol. Maent yn cynnwys eiddo personol a lluniau o'u hanwyliaid. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol ac maent yn cynnwys y cyfarpar angenrheidiol i gefnogi'r bobl ac i sicrhau y caiff eu hurddas ei gynnal. Mae'r gegin a'r cyfleusterau golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref. Gwelsom fod ardaloedd cymunedol ar ddau lawr y gwasanaeth a oedd yn cynnig digon o le i'r preswylwyr ymgysylltu â'i gilydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chwrdd â pherthnasau a ffrindiau a oedd yn ymweld â nhw. Mae'r cartref dros ddau lefel ac wedi'i rannu'n bedair ardal, sy'n ychwanegu at y naws gartrefol ac at yr ymdeimlad o berthyn i'r bobl. Dywedodd perthynas wrthym "*It's more like a five-star hotel than a care home*".

Mae'r gwasanaeth wedi rhoi camau diogelu ar waith i atal ymwelwyr heb awdurdod ac mae'n cynnal gwiriadau amgylcheddol rheolaidd. Wrth gyrraedd, gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr a gwiriwyd ein manylion adnabod. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau gwasanaethu a chynnal a chadw parhaus yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyfleustodau a'r holl gyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn addas at y diben. Caiff cyfarpar tân fel larymau a systemau chwistrellu eu gwirio, ac mae gan y bobl gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith, pe byddai argyfwng yn digwydd.  Mae amserlenni glanhau dyddiol effeithiol ar waith, ac mae pob rhan o'r cartref yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Gwelsom fod cyfyngwyr ar y ffenestri, a bod cemegion niweidiol yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom y cyfleusterau golchi dillad, sy'n addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli yn gryf ac yn gefnogol. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau a gwnaethant ganmol y rheolwr a'r dirprwy. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a bod morâl yn y cartref yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwyr, a'i bod yn hawdd mynd at bob un ohonynt. Dywedodd y staff wrthym "*I enjoy my job*", "*management are always there if you need them*", "*I feel valued, they invest in staff*" ac "*I really enjoy working here*".

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ar waith, fel systemau ar gyfer cynllunio gofal, monitro ac adolygu er mwyn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Darperir y gwasanaeth yn unol ag amcanion y Datganiad o Ddiben, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref bob chwarter i gwblhau gwaith monitro er mwyn sicrhau ansawdd.

Mae adran adnoddau dynol y gwasanaeth yn cadarnhau bod y broses recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol. Caiff aelodau newydd o'r staff sesiynau sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, gan gynnwys diogelu. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a bod gwaith tîm yn y cartref yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwyr, a'i bod yn hawdd mynd at bob un ohonynt. Mae rhifau PIN pob nyrs yn ddilys sy'n dangos eu bod yn addas i ymarfer, yn ôl gwefan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r darparwr yn ariannu cynllun 'Academi Nyrsys', lle gall staff wneud cais i ymgymryd â'u cymhwyster nyrsio.

Mae'r rheolwr yn hysbysu'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan fydd pryderon a digwyddiadau o bwys a allai effeithio ar lesiant yr unigolion sy'n cael gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cyfathrebu mewn modd effeithiol, agored a thryloyw. Gwelsom fod hysbysiadau yn cael eu cyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol a chyson.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/11/2023